




DB3

# Adroddiad Cam 3 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain

97-102 Stryd Taf Cam 2  
Parth Cyhoeddus Arfaethedig

|       |                 |
|-------|-----------------|
| Parch | Dyddiad         |
| P01   | Gorffennaf 2024 |

Cynnwys

- 1 Cyflwyniad
- 2 Lleoliad a Chyd-destun y Safle
- 3 Ymagwedd a nodau dylunio
- 4 Y cynigion



01\_ Golygfa o'r safle presennol o'r bont droed

| Fersiwn | Lluniwyd gan | Gwiriwyd gan | Nodiadau        | Dyddiad    |
|---------|--------------|--------------|-----------------|------------|
| P01     | MF           | MS           | Materion Cyntaf | 09/07/2024 |
|         |              |              |                 |            |
|         |              |              |                 |            |
|         |              |              |                 |            |
|         |              |              |                 |            |



# 1

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad yma wedi'i baratoi i gefnogi cynnig Cam 3 RIBA ar gyfer safle tir cyhoeddus newydd yn 97 i 102 Stryd y Taf, Pontypridd (safle hen siopau M&S a Dorothy Perkins).

Mae ailddatblygu'r safle yn 97-102 Stryd y Taf yn rhan o raglen strategol ehangach o brosiectau, sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gan y Cyngor, sy'n ceisio sefydlu 'Porth Deheuol' newydd i ganol y dref, fel y nodir yng Nghynllun Creu Lleoedd Pontypridd.


Mae'r cynlluniau yma'n cynnwys ailddatblygu safle'r hen Neuadd Bingo ac adnewyddu a gwella'r bloc o eiddo gyferbyn, sy'n cynnwys Tesco ac adeiladau eraill gyferbyn ynghyd â gwneud gwelliannau i gwrth blaen yr orsaf reilffordd yn y dyfodol.

Mae gweledigaeth y Cyngor yn cwmpasu cysylltiad swyddogaethol yn ogystal â dyhead i greu taith ddymunol a diogel o'r orsaf drenau trwy'r Porth Deheuol i ganol y dref. Mae RhCT wedi ymrwymo i greu cyfres o fannau agored cyhoeddus rhyng-gysylltiedig sy'n cynnig ardal bontio ddymunol i ymwelwyr wrth iddyn nhw deithio i ganol y dref.

Datblygodd DB3 y dyluniad i ymateb i'r weledigaeth yma a nodweddion arbennig y safle. Mae'r ddogfen yma'n disgrifio'r ymagwedd bensaernïol a'r camau a ddilynwyd i gyrraedd dyluniad datblygedig.

Disgrifir y meini prawf yma'n fanylach yn y tudalennau canlynol, gan egluro'r broses ar gyfer llunio'r dyluniad fel y dangosir ym mhenodau olaf y ddogfen.

Mae'r cynigion yn cynnwys mannau cyhoeddus newydd, gan gynnwys ardaloedd pontio rhwng y dref a'r parc, ardaloedd ar gyfer gwerthu bwyd a diod, golygfan newydd, plannu coed a gosod dodrefn trefol unigryw a manylion yn yr ardal gadwraeth.



02\_ Golygfa o'r awyr o'r ardal ar ôl y gwaith dymchwel (darn o'r capsiwl amser fideo fel y'i cyhoeddwyd gan Walters Construction) [https://www.linkedin.com/posts/walters-group-uk\\_pontypridd-waltersway-activity-7196765776312233984-5Yo9](https://www.linkedin.com/posts/walters-group-uk_pontypridd-waltersway-activity-7196765776312233984-5Yo9)

### Y BRIFF

Mae gweledigaeth y Cyngor yn cwmpasu cysylltiad swyddogaethol yn ogystal â dyhead i greu taith ddymunol a diogel o'r orsaf drenau trwy'r Porth Deheuol i ganol y dref. Mae RhCT wedi ymrwymo i greu cyfres o fannau agored cyhoeddus rhyng-gysylltiedig sy'n cynnig ardal bontio ddymunol i ymwelwyr wrth iddyn nhw deithio i ganol y dref.

Datblygodd DB3 y dyluniad i ymateb i'r weledigaeth yma a nodweddion arbennig y safle. Mae'r ddogfen yma'n disgrifio'r ymagwedd bensaernïol a'r camau a ddilynwyd i gyrraedd dyluniad datblygedig.

Disgrifir y meini prawf yma'n fanylach yn y tudalennau canlynol, gan egluro'r broses ar gyfer llunio'r dyluniad fel y dangosir ym mhenodau olaf y ddogfen.

### CAM 1 - GWAITH DYMCHWEL

Cam cyntaf y prosiect yma oedd y gwaith i ddymchwel hen adeiladau Marks and Spencer a Dorothy Perkins. Cafodd yr adeiladau segur yma, oedd wedi'i hadeiladu ar ddechrau'r 1900au, eu clirio yn rhan o'r gwaith i greu 'Porth Deheuol' i ganol y dref gan arwain at ddylunio plaza ar lan yr afon.

### CAM 2 - TIR CYHOEDDUS

Y nod yw creu man agored cyhoeddus sy'n darparu llwybr diogel a phleserus i fynedfa'r parc, cysylltiadau gweledol newydd ac agor y dref i'r afon am y tro cyntaf.

# 2

## Lleoliad a Chyd-destun y Safle

Mae'r safle wedi'i leoli ar Stryd y Taf, yng nghanol tref Pontypridd, a cheir mynediad iddo'n uniongyrchol o'r llwybr cyhoeddus.

Mae Stryd y Taf a'r strydoedd eraill yng nghyffiniau'r safle o natur fasnachol.

Mae Stryd y Taf yn rhoi mynediad i ystod o wasanaethau a chyfleusterau.

Mae Stryd y Taf yn un o brif strydoedd canol tref Pontypridd ac mae'r safle wedi'i leoli tua 0.2 milltir tua'r gorllewin o'r Orsaf Reilffordd.

Mae'r tai o boptu'r safle yn dai teras, gyda'r afon Taf yn rhedeg ar hyd y ffin gefn. Mae'r Afon Rhondda a chwlfert fechan yn rhedeg yn union o dan hen siop Marks & Spencer.

Mae'r safle presennol yn gorchuddio arwynebedd o tua 1,750m2.

### CYNLLUN CREU LLEOEDD PONTYPRIDD: Y NODAU A'R UCHELGAIS CRAIDD

Mae canol tref Pontypridd wedi wynebu heriau sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf; yn gyntaf bu heriau i'r sector manwerthu ac yna cafwyd llifogydd a ddifrododd ardaloedd helaeth o'r dref ac a beryglodd y busnesau a'r gweithwyr.


Mae'r cynllun creu lleoedd yma wedi'i seilio ar leoliad a nodweddion unigryw'r dref ac mae'n darparu'r sail ar gyfer sefydlu Pontypridd fel lle unigryw i weithio, byw ac ymweld ag ef. Mae'r weledigaeth a osodwyd gan y cynllun creu lleoedd yma'n uchelgeisiol yn y cyd-destun presennol, ond mae hefyd yn realistig ac mae modd ei gwireddu fesul cam gan randdeiliaid preifat a chyhoeddus sy'n gweithio ar y cyd. Mae buddsoddiad ym Mhontypridd eisoes yn cael ei adlewyrchu gan ddatblygiad Llys Cadwyn a bydd y Metro yn trawsnewid cysylltedd y dref. Mae'r cyfleoedd datblygu a chreu lleoedd newydd a nodir yn y cynllun yma'n ymateb yn uniongyrchol i'r cyd-destun cyffrous a chyfnwidiol yma. Gyda'i gilydd mae modd iddyn nhw alluogi Pontypridd unwaith eto i ddod yn ganolfan economaidd, cymdeithasol a diwylliannol allweddol sy'n darparu ar gyfer anghenion ei thrigolion ac sydd hefyd yn gweithredu fel catalydd ar gyfer lledaenu twf a ffyniant drwy'r Brifddinas-Ranbarth ehangach. Mae Cynllun Creu Lleoedd Pontypridd wedi nodi meysydd ffocws penodol i'w datblygu mewn pum ardal ofodol.

Mae'r cynllun creu lleoedd yn darparu gweledigaeth feiddgar ar gyfer canol y dref, ac yn nodi ymyriadau mae modd eu gweithredu'n gyson i ddatgloi

potensial y dref a sicrhau ei bod yn ganolfan economaidd, cymdeithasol a diwylliannol allweddol ar gyfer y Brifddinas-Ranbarth.

Mae'r Cyngor eisoes wedi cwblhau ystod o weithgarwch adfywio sylweddol yn y dref.

Gyda chymorth cyllid Trawsnewid Trefi drwy Lywodraeth Cymru, prynodd y Cyngor yr hen Neuadd Bingo a chlwb nos Angharad ac hen adeiladau Marks & Spencer a Dorothy Perkins/ Burtons. Roedd pob un ohonyn nhw'n wag ac mewn cyflwr adfeiliedig ac yn cael effaith negyddol iawn ar y treflun a chymeriad ac edrychiad yr Ardal Gadwraeth. Mae ailddatblygu'r safleoedd yma'n sylfaenol i dwf a llwyddiant y dref yn y dyfodol. Mae hyn yn ffaith a gydnabyddir gan y cynllun creu lleoedd, lle mae'r holl ystyriaethau'n cael eu dadansoddi, a chynigion wedi'u datblygu er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau i'r dref (cyfeiriwch at ddelwedd 3. Mae safle'r Hen Neuadd Bingo eisoes yn cael ei adeiladu ac mae'r cynigion ar gyfer y safle yma'n cael eu datblygu ochr yn ochr â safle'r neuadd Bingo er mwyn sicrhau parhad o ran ymagwedd a dyluniad cydlynol.



03\_ Prif Gynllun Canol Tref Pontypridd – Mannau Gweithredu Allweddol



CYNLLUN CREU LLEOEDD PONTYPRIDD:  
SAFLE'R PORTH DEHEUOL

Fel y disgrifir yng nghynllun creu lleoedd yr ardal, mae'r Cyngor yn bwriadu creu Porth Deheuol a mynedfa amlwg i'r dref. Bydd yn cynnwys datblygiad defnydd cymysg ar raddfa fawr sy'n cynnwys safleoedd cyflogaeth, hamdden a phreswyl. Mae safle hen adeiladau Marks & Spencer a Dorothy Perkins yn rhan annatod o gyflawni'r cynllun creu lleoedd. Mae adroddiad Porth y De yn nodi'r pwyntiau allweddol isod:

•Mae Porth y De wedi'i nodi yng Nghynllun Creu Lleoedd Pontypridd yn un o'r ardaloedd allweddol lle y mae modd cynnal ymyriadau. Byddai hyn yn cael cryn effaith wrth drawsnewid canol y dref.

•Ers datblygu'r Cynllun Creu Lleoedd, mae'r Cyngor wedi bod yn rhagweithiol o ran caffael eiddo allweddol yn yr ardal i sicrhau bod modd iddo reoli'r math o ddatblygiad a fydd yn digwydd a sicrhau'r ansawdd dylunio gorau.

•Porth y De yw'r ardal gyntaf y mae pobl yn ei gweld wrth ddod i mewn i'r dref o'r de, gan gynnwys o orsaf drenau Pontypridd. Mae trawsnewid yr ardal felly yn rhoi'r cyfle i greu ymdeimlad amlwg o gyrraedd sy'n unigryw i Bontypridd. Dyma gyfle i groesawu pobl i'r dref, gwella ei hadeiladau hanesyddol hardd ac agor y dref i'w lleoliad ar lan yr afon a ger y parc.

•Mae amgylchedd ymyl yr afon yn wael ond mae modd gwella hyn trwy ailddatblygu adeiladau allweddol ar Stryd y Taf.  
•Mae'r adeiladau deulawr wedi'u lleoli'n strategol ar hyd Stryd y Taf ac ar ben y bont strwythurol dros yr Afon Rhondda. Mae'r safle yn ymestyn i'r cefn hyd lan yr afon, gan roi cyfle gwyh i agor canol y dref tuag at yr afon. I'r mwyafrif sy'n wag, mae'r Cyngor wedi caffael yr adeiladau yn ddiweddar.  
•Mae cynllun ailddatblygu'r safle yn anelu at agor y dref i'r afon a'r parc a chyflwyno safleoedd masnachol a hamdden newydd ar hyd yr afon.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyflwyno datblygiad newydd yn yr ardal yma a fyddai o ansawdd pensaernïol uchel er mwyn darparu'r mynediad datganiad gofynnol, manteisio ar gyfleoedd i greu rhyngwyneb nodedig ag Afon Taf ac Afon Rhondda, sefydlu golygfeydd dros Barc Coffa Ynysangharad a chreu mannau o ansawdd rhagorol i bobl drwy ailddatblygu safle hen adeiladau Marks & Spencer a Dorothy Perkins/Burtons.



CYMDEITHASOL

- Datgloi safleoedd datblygu newydd a fydd yn adeiladu ar gynllun Llys Cadwyn a darparu rhagor o leoedd gwaith, cartrefi a chyfleoedd hamdden.
- Canolbwyntio datblygiadau newydd ar ddulliau trafniadaeth allweddol i greu mynedfeydd newydd i Bontypridd.



CYSYLLTEDD

- Gwella cysylltedd i gerddwyr rhwng yr orsaf reilffordd a'r dref.
- Sefydlu gwell integreiddiad rhwng dulliau trafniadaeth yn yr orsaf reilffordd.



SEILWAITH GWYRDD

- Sefydlu lleoliad glan dŵr unigryw ar gyfer y dref.
- Ymgorffori rhagor o dirlunio meddal yn y seilwaith ffyrdd a mannau cyhoeddus.
- Cyflwyno mannau gwyrdd a phlanhigion newydd a all helpu i leihau dŵr ffo'r dŵr wyneb a helpu i liniaru llifogydd yn y dyfodol.



TREFLUN

- Sefydlu pyrth newydd i'r dref.
- Creu ffyrntiadau newydd ar lan yr afon.




DIWYLLIANNOL A CHYMDEITHASOL

- Creu cyfleusterau hamdden amrywiol sydd â phresenoldeb ar lan yr afon.



TIR Y CYHOEDD

- Creu plazas newydd ar lan yr afon a phyrth i mewn i'r dref.
- Gwella rhyngweithiad â'r Afon Taf ac Afon Rhondda.



05\_ O Gynllun Creu Lleoedd Canol Tref Pontypridd



YR ARDAL GADWRAETH

Mae cymeriad cyffredinol Pontypridd yn dref o'r 19eg ganrif gyda nifer o adeiladau o ddechrau'r 20fed ganrif sy'n awgrymu cyfnod o lwyddiant economaidd tua throad y ganrif.

“Mae llawer o ffurf a chynllun gwreiddiol Pontypridd wedi cadw, a oedd yn amlwg wedi'i ddylanwadu'n drwm gan dopograffeg yr ardal, yn enwedig lleoliadau'r afonydd Taf a Rhondda. Mae llinell Stryd y Taf yn dilyn llinell yr Afon Taf yn fras, gyda datblygiad ar ei hochr orllewinol, tra bod Stryd y Felin, y prif lwybr yn hanesyddol o Bontypridd i Gymoedd y Rhondda, yn dilyn yr Afon Rhondda o'i chyffordd ag Afon Taf. Yn ddiddorol, nid oes gan y naill ffordd na'r llall eiddo sy'n wynebu'r afonydd, ac mae gan y dref deimlad o fod wedi troi cefn ar yr afonydd yma. Mae'n debyg y byddai'r afonydd wedi bod braidd yn dywyll a budr ar yr adeg yr oedd y dref yn datblygu, oherwydd amlygrwydd gweithgarwch diwydiannol yn yr ardal a'r ffaith bod dŵr o'r glofeydd wedi'i bwmpio'n cael ei waredu'n uniongyrchol i'r afonydd, ac o'r herwydd bydden nhw wedi amharu ar amgylchedd y dref.” (Gwerthusiad Ardal Gadwraeth).

Cyfleoedd i Wella'r ardal hon fel y disgrifir yn y Gwerthusiad Ardal Gadwraeth:

- Gwella blaenau siopau, gan gynnwys symud/ amnewid arwyddion amhriodol
- Gwella'r parth cyhoeddus, gan gynnwys creu “sgwâr” ym mhen gorllewinol Stryd y Felin
- Cyfle posib i ailddatblygu'r maes parcio

Mae'r Gwerthusiad yn disgrifio (tudalen 34) mai pwrpas y dynodiad Ardal Gadwraeth yw “gwarchod y diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sy'n rhoi cymeriad i'r ardal ac yn ei gwneud yn unigryw.” Mae'n bwysig nodi bod y Gwerthusiad yn cadarnhau'n gywir y cefnogir datblygiad modern da cyn belled â'i fod yn parchu cyd-destun yr ardal.



06\_ Ffotograff hanesyddol yn darlunio pont Rhondda a chymeriad yr ardal cyn i'r adeiladau dan sylw gael eu codi.

ESBLYGIAD HANESYDDOL YR ARDAL

Nodwyd datblygiad hanesyddol yr ardal o astudiaeth bwrdd gwaith o'r mapiau Degwm a ffotograffau ac archifau hanesyddol.

Mae map Degwm 1874 (ffigur 06) yn dangos pont dros yr Afon Rhondda ac adeilad ar ochr ogledd-ddwyreiniol y bont.

Mae lluniau o droad yr 20fed ganrif (ffigurau 04 a 05) yn dangos Stryd y Felin ar y chwith a Gwesty'r Butchers Arms ar y dde. Daeth rheiliau'r bont i fyny at gyffordd Stryd y Felin. Bydd adeilad to brig ar y dde yn cael ei ddymchwel i adeiladu adeilad Royal Liver Assurance.

Mae map Degwm 1921 (ffigurau 07, 11) yn dangos pont letach dros yr Afon Rhondda gydag adeiladau Alexandra wedi'u datblygu ar yr ochr ogledd-ddwyreiniol. Roedd y Stryd Fawr wedi'i hadeiladu hyd at lan yr afon ar ochr y De Orllewin.

Mae archifau digidol Papurau Newydd y cyfnod yn dangos bod adeilad Burtons (97-99 Stryd y Taf) wedi agor ym 1926.

Mae lluniau hanesyddol 10 a 12 yn dangos bod yr adeiladau ar 97-102 Stryd y Taf wedi eu codi ar ochr y bont garreg dros yr Afon Rhondda.

Mae'r ffilmiau aero yn darlunio dau adeilad gyda thoeau ar oleddf ar flaen Stryd y Taf a tho fflat tuag at yr Afon Taf.

Mae Ffotograff 14 yn dyddio o 1955 yn dangos adeilad lletach ac estynedig ar 100-102 Stryd y Taf. Mae'r to crib fel y gwelir yn y llun o 1932 bellach wedi'i ddarlunio gyda tho fflat a hirach; mae'n amlwg bod yr adeilad wedi ei addasu a'i ymestyn yn y cefn yn ystod y cyfnod yma. Mae hynny hefyd yn amlwg ym mapiau Degwm 1949 a 1952 (ffigurau 08 a 09).

Felly, mae'r gymhariaeth o ffotograffau hanesyddol a chyfoes yn dangos bod adeiladau 97-102 Stryd y Taf wedi mynd trwy gamau, addasiadau ac ychwanegiadau.

Mae'r gymhariaeth yma hefyd yn dangos bod datblygiad y dref yn ystod y ganrif ddiwethaf wedi diystyru'r amgylchedd naturiol o'i chwmpas ac wedi canolbwyntio ar greu canolfan fasnachol gaeedig.

Mae'n amlwg na chymerodd datblygiad y dref y naill na'r llall o'r ddwy afon i ystyriaeth rhwng y 1920au a'r 1950au; estynnwyd pont y Rhondda a oedd unwaith yn agored ac fe'i hadeiladwyd a 'throdd yr holl adeiladau eu cefnau' at yr Afon Taf.



07\_ Ffotograff hanesyddol yn darlunio pont y Rhondda a chymeriad yr ardal cyn i'r adeiladau dan sylw gael eu codi.




Y SAFLE HEDDIW: Golygfeydd o'r safle a thuag at y safle a chyfleoedd



08\_ Golygfa o'r de-ddwyrain tuag at ogledd-orllewin y safle.


Mae'r uchder yn gostwng i Stryd y Taf ar y dde a jig-so o strwythurau tua ffin y De Orllewin.

Mae'r wal a ddangosir ar y chwith yn 'gweithredu' fel amddiffynfa dros dro rhag llifogydd.




11\_ Golygfa o Stryd y Taf tuag at safle'r hen neuadd Bingo a'r orsaf drenau.

Cyfle i'r ddau safle gael eu darllen fel dilyniant o ofodau gyda chymeriad tebyg.




09\_ Golygfa o'r Afon Taf tuag at y Parc (trwy agoriadau yn yr hysbysfwrdd).

Golygfeydd hir tuag at y parc; mae hon yn olygfa bwysig i'w chadw gan ei bod yn amlygu perthynas y parc â'r dref.



12\_ Golygfa o'r gogledd-ddwyrain tuag at Stryd y Taf.

Mae gwahaniaeth uchder sylweddol ar draws y safle. Mae cyfle i greu gofodau canolradd a chreu trafodiad o lefel uwch i lefel is.



10\_ Golygfa o'r gogledd orllewin tuag at y Parc.

Cyfle i godi'r lefel uwchben y wal amddiffyn rhag llifogydd i agor golygfeydd i'r afon.



13\_ Golygfa o'r parc tuag at y safle.

Ar hyn o bryd mae'r holl ddatblygiadau yn symud yn raddol tuag at y Stryd Fawr a Stryd y Taf, gyda'u hiardiau cefn tuag at yr afon a'r parc.

Cyfle i'r safle gael ei ddarllen fel cysylltiad newydd â'r dref.





# 3

## Dull Dylunio: Cysylltu'r Dref â'r Parc

Mae gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y safle yn cwrddu'r cysylltiad swyddogaethol yn ogystal â'r dyhead i greu taith ddymunol a diogel o'r orsaf drenau trwy'r Porth Deheuol i ganol y dref. Mae RhCT wedi ymrwmo i greu cyfres o fannau agored cyhoeddus rhyng-gysylltiedig sy'n cynnig ardal bontio ddymunol i ymwelwyr wrth iddyn nhw deithio i ganol y dref.

Datblygodd DB3 y dyluniad i ymateb i'r weledigaeth yma a nodweddion arbennig y safle.


Amlygodd y dadansoddiad cyd-destun gymeriad amrywiol y safle; mae ganddo leoliad unigryw:

- mae wedi'i leoli ar linell prif stryd fasnachol y dref;
- mae wedi'i leoli uwchben yr Afon Rhondda ac mae'n gyfagos i'r Afon Taf;
- mae wedi'i gysylltu â Pharc Coffa Ynysangharad trwy bont droed.

Nod y dull dylunio a fabwysiadwyd yw gwella ac amlygu'r rhain yn rhan o'r parth cyhoeddus newydd.

Bwriad y dyluniad yw creu safleoedd dilyniannol yn ffurfio'r Porth Deheuol, a chreu cysylltiad rhwng y dref a'r parc. Cyflawnir hyn trwy gyflwyno llwybr ffisegol a gweledol rhwng yr orsaf drenau, y dref, yr afon a'r parc.

O'r herwydd, y prif gysyniad dylunio yw cysylltu holl elfennau gwahanol yr ardal trwy gyflwyno llwybr llinellol.




**Cyfle i gysylltu'r orsaf â'r parc drwy'r safle.**



DADANSODDIAD O'R SAFLE A DULL DYLUNIO


Mae'r safle mewn lleoliad allweddol rhwng y dref, yr Afon Taf a'r parc ac mae modd ei weld fel tri pharth gwahanol:

- y parth sydd nesaf at Stryd y Taf ac sydd â chymeriad trefol
- y parth sydd nesaf at lan yr Afon Taf
- y parth sydd nesaf at y bont droed a'r parc.




Mae gwahaniaeth sylweddol mewn lefelau ar draws y safle, gyda Stryd y Taf tua 3 i 3.8 metr yn uwch na lefel y bont droed. Ein hymagwedd yw cyflwyno tri llwyfandir gwahanol sy'n cyfateb i wahanol ffiniau a lefelau'r safle:


- Y llwyfandir uchaf sy'n caniatáu mynediad o safle'r neuadd bingo a Stryd y Taf
- Y llwyfandir canol sydd wedi'i osod ychydig uwchben lefel yr amddiffynfeydd llifogydd (+56.80 metr)
- Y llwyfandir isaf sydd wedi'i osod ar lefel y bont droed i ganiatáu cysylltiad tuag at y parc.



Fel y nodir yn yr uwchgynllun, cysylltu'r orsaf drenau â'r dref a'r parc yw un o'r sbardunau dylunio pwysicaf ar gyfer y cynllun yma. Mae'r safle cyfagos (safle'r hen neuadd Bingo) hefyd wedi'i ddatblygu gan ddilyn yr un egwyddorion. Mae'r dyluniad arfaethedig yn mynegi'r egwyddor yma gyda symudiad lletraws a thrwy gynnwys grisiau trwy'r safle.



Serch hynny, er mwyn caniatáu mynediad i'r gwahanol lefelau i'r holl ddefnyddwyr, cyflwynir llwybr mwy troellog yn dilyn ffurf organig. Mae'r llwybr hefyd yn caniatáu ar gyfer cynllun cynnal a chadw mwy cynaliadwy gan ei fod yn caniatáu i gerbydau cynnal a chadw gael mynediad i'r holl lwyfandiroedd.





# 4

## Y Cynigion

Y newidiadau lefel serth ar draws y safle a chreu 'cyswllt' gweledol a ffisegol rhwng y dref a'r parc fu'r ddau brif ffactor dylunio sy'n ffurfio ein cynigion.

Mae'r dyluniad wedi'i ddatblygu i greu golygfeydd o Stryd y Taf tuag at yr afon a'r parc ac i groesawu ymwelwyr i ddefnyddio'r safle fel man hamdden ac i symud o un lleoliad i leoliad arall. Bydd gan y lefel uchaf a chanol olygfeydd dirwysr tuag at yr afon a'r parc a'r mannau eistedd mae modd i'r ymwelwyr eu defnyddio. Lle bo'n briodol, aethpwyd i'r afael â'r newid yn y lefelau er mwyn darparu mynediad a seddau anffurfiol drwy gyfres o risiau a seddi picnic. Mae'r grisiau wedi'u dylunio i fod yn isel i hwyluso symudiad defnyddwyr.

Mae pob llwyfandir wedi'i ddylunio fel 'plaza' agored gyda dodrefn stryd a ffitiadau yn ogystal ag ardal hyblyg y mae modd ei ddefnyddio gan wahanol werthwyr.

Mae modd defnyddio'r gofod hyblyg, ar y llwyfandiroedd uchaf a chanol, i gael caffis ciosg a fydd yn gwerthu bwyd i ymwelwyr. Bydd seddau dan do ar gyfer y sawl sy'n defnyddio'r ciosg ond bydden nhw'n cael eu storio y tu allan i oriau agor y ciosg i atal camddefnydd neu fandaliaeth. Bydd gan y ciosg gysylltiad pŵer a man storio, ar gyfer ymbarelau a seddi pan na fydden nhw'n cael eu defnyddio.

Ar gyfer y llwyfandir isaf, mae'n bosibl y bydd modd i'r adeiladau cyfagos ddefnyddio'r gofod hyblyg, pe bai cyfle'n codi.

Mae'r llwyfandir canol wedi'i gynllunio fel plaza agored sy'n caniatáu i ymwelwyr orffwys a mwynhau'r golygfeydd yn y parth cyhoeddus a thuag at yr afon.

Mae bron i 2/3 o'r safle wedi'i leoli uwchben yr Afon Rhondda a chwlfert agored. Gwnaethpwyd penderfyniad i gynnal y slab concrit presennol er mwyn lleihau goblygiadau o ran ecoleg a chost i'r prosiect.

Serch hynny, oherwydd oedran a chyflwr y slab, mae'n rhaid gosod strwythur newydd ar lefel uwch ar gyfer y dyluniad newydd, yn debyg i ddyluniad 'podiwm'. I'r perwyl hwnnw mae strwythur ffrâm ddur wedi'i ddylunio i gynnal y lefelau canol ac uwch. Mae'r lefel is yn eistedd dros 'dir solet' ac felly mae'r dyluniad yn llai cyfyngedig.

Mae'r safle wedi ei ddylunio i fod yn fan cyhoeddus agored sy'n addas i'w ddefnyddio bob awr o'r dydd. Mae'r deunyddiau arfaethedig wedi'u dewis i fod mor gadarn a hawdd i'w cynnal â phosibl ac i gydweddu ag esthetig rhai â'r safleoedd cyfagos ac ar draws cynlluniau Porth y De a'r Gogledd. Gan fod y lefelau uchaf a chanol wedi'u dylunio i mewn fel 'llwyfannau' ni fydd yr arwynebau palmantog yn athraidd. Bydd y lefel isaf, sydd dros dir solet, â phalmentydd athraidd.

Y nod yw defnyddio tirwedd i leddfu'r dyluniad a chyflawni enillion net o ran bioamrywiaeth. Mae yna dair 'ardal werdd' fawr y mae modd eu plannu gydag amrywiaeth o lwyni blodeuol a phlanhigion isel. Er mwyn amlygu'r symudiad lletraws trwy'r safle a fframio'r olygfa tuag at y parc, mae'r dyluniad hefyd yn cynnwys plannu coed yn dilyn llwybr llinellol.

Mae'r gorffeniadau yn adlewyrchu cymeriad pob llwyfandir:

-mae gorffeniadau'r llwyfandir uchaf yn debyg iawn i hen safle'r neuadd Bingo a'r Stryd Fawr / Stryd y Taf er mwyn caniatáu ymdeimlad 'parhaus' o'r gofod. Mae'r rheiliau ar Stryd y Taf yn adlewyrchu'r lluniau hanesyddol ac yn rhoi ymdeimlad o ymyl wrth ymyl yr afon (delwedd 7).

-mae'r llwyfandir canol yn dal i ddilyn yr un paled deunydd ond cyflwynir mwy o ffurfiau organig i gysylltu'r parth cyhoeddus newydd â'r afon a'r parc

-mae gan y llwyfandir isaf deimlad mwy priddlyd gyda chryn dipyn o'r ardal yn cael ei phlannu yn dilyn ac yn adlewyrchu llystyfiant yr afon.





Wal Sgrin newydd  
gyda dringwyr

Ciosgau Dros Dro yn  
cynnig cyfleoedd  
fanwerthwyr dros dro

Llwybr sy'n cydymffurfio  
â'r Ddeddf Gwahaniaethu  
ar sail Anabledd

Llwyfandir  
uwch ar  
lefel y  
stryd

Y posibilrwydd i'r ardal gael ei defnyddio  
gan Adeiladau'r Principality.

Noder: Mae'r planhigion sydd i'w gweld yn enghreifftiol -  
gweler lluniadau'r Pensaer Tirwedd ar gyfer cynigion  
tirwedd meddal manwl.

Y Llwyfandir canol gyda  
seddi ar lan yr afon gyda  
golygfeydd dros yr Afon Taf  
a Pharc Ynysangharad

Llwybr sy'n  
cydymffurfio â'r  
Ddeddf Gwahaniaethu  
ar sail Anabledd

Triniaeth newydd i'r  
lôn a chysylltiad dros y  
bont tuag at Barc  
Ynysangharad





Llwyfandir uwch i lefel  
y stryd

Man ar gyfer  
celf stryd/  
cyhoeddus

Llwybr sy'n cydymffurfio  
â'r Ddeddf Gwahaniaethu  
ar sail Anabledd  
(graddiant 1:21) gyda  
balwstrad 1100mm o  
uchder lle bo angen

Y posibilrwydd i'r ardal gael  
ei defnyddio gan  
Adeiladau'r Principality.

Ciosgau Dros Dro yn  
cynnig cyfleoedd i  
fanwerthwyr dros dro

Y llwyfandir canol gyda  
seddi ar lan yr afon gyda  
golygfeydd dros yr Afon Taf  
a Pharc Ynysangharad

Ardal tirlunio meddal

Noder: Mae'r planhigion sydd i'w  
gweld yn enghreifftiol - gweler  
lluniadau'r Pensaer Tirwedd ar  
gyfer cynigion tirwedd meddal  
manwl.





Golygfa o'r llwyfandir isaf



Golygfa o'r llwyfandir canol



Golygfa o fynedfa'r siop ganhwylau



Golygfa o fynedfa'r neuadd fingo

Noder: Mae'r planhigion sydd i'w gweld yn enghreifftiol - gweler lluniadau'r Pensaer Tirwedd ar gyfer cynigion tirwedd meddal manwl.



DEUNYDDIAU\_ PALMANT A PHATRWWM




Cynllun gosod palmant (ar raddfa 1:200)

**MATH P1- PALMANTU AR GYFER Y LLWYBR LLINOL**  
Cynnyrch: Palmant Marshalls, Conservation X Piora  
Lliw : Golosg (50%), Llwyd Arian (50%)  
Gorffeniad: Gweadog  
Maint: 400mm x 400mm, 400mm x 200mm, 600mm x 400mm  
Patrwm: Cerrig i'w gosod ar eu hyd (stretcher bond), lliw / maint ar hap



**MATH P2- PALMANTU I'R LLWYBR CRWM**  
Cynnyrch: Marshalls, Conservation X Block  
Lliw: Golosg (50%), Llwyd Arian (50%)  
Gorffeniad: Gweadog  
Maint: 160mm x 120mm, 160mm x 160mm  
Patrwm: I'w gosod, wedi bondio mewn pentwr a dilyn y gromlin




**MATH P3- PALMANTU I'R LLWYFANDIR**  
Cerrig Llorio Concrit  
Cynnyrch: Marshalls, Conservation X Piora  
Lliw: Arian Llwyd  
Gorffeniad: Gweadog  
Maint: 400mm x 400mm  
Patrwm: Cerrig i'w gosod ar eu hyd (stretcher bond)



**MATH P4- PALMANTU I SYLFAEN Y STONDIN DROS-DRO**  
Cerrig Llorio Concrit  
Cynnyrch: Marshalls, Conservation X  
Lliw: Siarcol  
Gorffeniad: Sgim  
Maint 400mm x 400  
Patrwm: I'w gosod wedi bondio mewn pentwr




**MATH P5- PALMANT BOTYMOG**  
Palmant botymog  
Cynnyrch: Marshalls, Rhybudd Perygl Botymog  
Lliw: Gorffeniad Bwff  
Gorffeniad: Soled, gyda phroffil uwch, rhesog.  
Maint: 400mm x 400mm  
Patrwm: I'w gosod wedi bondio mewn pentwr



**MATH P6- CERRIG LLORIO AC YMYLON**  
Cerrig Llorio Concrit  
Cynnyrch: Marshalls, Conservation X  
Lliw: Arian Llwyd  
Gorffeniad: Sgim  
Maint: 900mm x 300mm  
Patrwm: I'w gosod wedi bondio mewn pentwr, rhes sengl



**MATH P7**  
Cerrig Llorio Concrit  
Cynnyrch: Marshalls, Conservation X Sett  
Lliw: Palmant  
Gorffeniad: Gweadog  
Maint: 100mm x 100mm  
Patrwm: I'w gosod, wedi bondio mewn pentwr



**MATH P8**  
Cerrig Llorio Concrit.  
Cynnyrch: Marshalls, Conservation X  
Lliw: Llwyd Glas (50%), Golosg (50%)  
Gorffeniad: Sgim  
Maint: 600mm x 200mm  
Patrwm: Cerrig i'w gosod ar eu hyd (stretcher bond), lliwiau ar hap



**GRISIAU MATH S1- GRISIAU PALMANT AC YMYL Y PALMANT**  
Palmant concrit  
Cynnyrch: Grisïau ymyl y palmant Marshalls, Conservation X  
Lliw: llwyd arian  
Gorffeniad: Sgim  
Maint: 145mm x 255mm  
Patrwm: Uned cam sengl



**MATH GRISIAU S2- CONCRIT BWRW**  
Concrit bwrw gydag ymyl blaen sefydlog  
Cynnyrch: SureGRP, Ymyl Blaen Gwydn Gwrthlithro  
Lliw: Du (egwyddor) a melyn  
Deunydd: GRP (Plastig wedi'i Atgyfnerthu â Gwydr)  
- gwydr ffibr gyda gorffeniad wyneb gwrthlithro graean chwarts.  
Trwsio: Gosodiad mecanyddol a gludiog





DEUNYDDIAU\_ PALMANT A PHATRWM

PALMANT CONCRIT (cyfres Marshalls Conservation X)



Palmant i'r llwyfandir: Patrwm i gyd-fynd â safle'r hen neuadd Bingo).



Parthau : Enghraifft o batrwm ar gyfer creu parthau/patrymau gwahanol



Llwybr llethrog : Enghraifft o batrwm ar gyfer llwybrau crwm (mae'r lliw arfaethedig i gyd-fynd yn agos â safle'r neuadd Bingo).

GRISIAU A CHODI



Conservation X ar gyfer y grisiau i'r llwybr llinellol




Grisiau ymyl y palmant Marshalls Conservation X ar gyfer y llwybr llinellol



Palmant Rhybudd Perygl Botymog Marshalls yn agos at risiau





Cynllun mathau o waliau @ 1:200



WT1 Bwrdd sment wedi'i rendro gyda chelf Stryd



WT2 Ffensys metel a dringwyr i'r ffin




WT3 Mur marshalite lliw lludw (effaith carreg)


Wal frics bresennol i'w chadw a'i hatgyfnerthu yn unol â darluniau'r De Ddwyrain




DEUNYDDIAU\_ MATHAU O WALIAU



Math wal WT1: Adrannau ar raddfa 1:50



Math wal WT2: Graddfa Trawsdoriad Nodweddiadol 1:20



Math wal WT3: Graddfa Trawsdoriad Nodweddiadol 1:20





Cynllun ffitiadau heb fod yn ôl graddfa



Ynysoedd coed 'Streetlife Rough&Ready' i weithredu fel 'darn canolog' i'r ardal gyhoeddus  
Sedd: pren, trawstiau FSC® 100% Pren Caled (Louro Gamela) heb ei drin (7x15cm | 2.8x5.9")  
Waliau: dur hindreulio wedi'i dorri â laser Dosbarth A heb ei drin 4mm o drwch Dewisol: gorffeniad powdr dwbl wedi'i orchuddio â lliw RAL



Meinciau Furnitubes Cyfres Zenith fel y nodir ar gyfer ffrâm ddur hen safle'r neuadd bingo physt ar gyfer gosod yn y ddaear, dip poeth wedi'i galfaneiddio a gorchuddio â phowdr polyester, gydag estyll pren iroko wedi'u cynllunio'n llyfn.




Bin Sbwriel Arca Furnitubes  
i gyd-fynd â safle'r hen neuadd bingo



Rheseli beiciau Sheffield wedi'u gosod mewn sylfeini concrit



Bolardiau GEO



Canllaw Dur Di-staen / Balwstrad pwrpasol: Ffrâm ddur wedi'i gribinio (stryd ac ymyl yr afon) a ffrâm sy'n meinhaus (ar y llwybrau) physt i'w gosod yn y ddaear, galfanedig dip poeth a gorchudd powdr polyester, gyda gorffeniad llyfn wedi'i gynllunio ar gyfer estyll pren iroko.



Mae'r ddelwedd yn ddarlun nodweddiadol gan y gwneuthurwr sy'n dangos sut y byddwn nhw'n mynd i'r afael â chrymedd a gogwydd y system ganllawiau. Byddai'r fanyleb yn gofyn am bostyn unionsyth wedi'i gribinio wedi'i addasu, gyda bar crwm 10mm neu 12mm mewn diametr wedi'i fewnlenwi'n solet, yn lle'r mewnlenwi gwifren. Yn dibynnu ar rychwant y pyst unionsyth, byddai postyn canolog i atal afluniad.



Mae rheoli a chynnal tirwedd mewn ffordd briodol yn hanfodol i lwyddiant dyluniad y dirwedd.

Bydd angen mynd i’r afael â’r ffactorau allweddol canlynol er mwyn cynnal parth cyhoeddus a phreifat o ansawdd uchel:

• Iechyd Garddwriaethol

• Wyneb Caled

• Atgyweirio ac Adnewyddu

• Diogelwch

• Glanweithdra

Iechyd Garddwriaethol

Mae iechyd a chyflwr cyffredinol ardaloedd planedig gan gynnwys coed, llwyni a phlanhigion lluosflwydd yn amlwg yn arwydd o lefel y gofal a'r sylw y mae lle yn ei gael. Bydd plannu, gan gynnwys unrhyw ddeunydd sydd wedi marw neu sy'n marw, yn cael ei gynnal yn unol â'r Fanyleb Cynnal a Chadw Tirwedd. Bydd coed yn cael eu harchwilio a bydd yr archwiliadau yma'n darparu tocio llawn gwybodaeth i sicrhau arferiad a ffurf briodol, monitro iechyd coed a chael gwared ar ganghennau marw neu afiach yn ôl yr angen. Unwaith y bydd wedi'i sefydlu, bydd angen cael gwared ar y polion / systemau llywio lle bo'n berthnasol. Bydd gwelyau llwyni'n cael eu cynnal a'u cadw'n barhaus i sicrhau amodau heb chwyn trwy ddefnyddio chwynladdwyr, technegau tyfu a gorchuddio. Bydd angen tocio er mwyn hybu tyfiant trwchus ac iach a sicrhau bod planhigion unigol yn sefydlu gorchudd trwchus cyn gynted â phosibl. Bydd angen tocio tyfiant sy'n hongian dros ffyrdd a throedffyrdd, ac ailosod gwelyau/rhywogaethau sydd wedi dod yn or-aeddfed. Hyd nes y bydd coed a llwyni newydd wedi'u sefydlu'n llawn, bydd angen dyfrio digonol.

Arwynebau Caled

Mae angen cynnal a chadw tymhorol ar ddail sydd wedi cwmpo, clirio eira a dadrewi, yn ogystal â gwaith cynnal a chadw i gadw'r palmant yn rhydd o chwyn trwy gyfuno dulliau cemegol a gwaith corfforol.

Trwsio ac Amnewid

Bydd yr angen i atgyweirio ac ailosod gorffeniadau yn cael ei liniaru trwy ddefnyddio deunyddiau priodol a gwydn. Serch hynny, yn y tymor hir mae rhywfaint o waith cynnal a chadw ac amnewid yn anochel.


Diogelwch

Mae amgylchedd diogel yn un sy'n hygyrch i bawb. Yn ogystal â mabwysiadu egwyddorion 'Diogelu Trwy Ddylunio' wrth ddylunio'r ardaloedd wedi'u tirlunio, bydd angen rheoli a chynnal a chadw'r cynigion tirwedd yn y tymor hir. Mae lleoedd sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda yn llai tebygol o ddioddef trosedd gan eu bod nhw'n fwy tebygol o gael eu defnyddio, felly bydd presenoldeb cynyddol yn atal ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd gwyliadwriaeth yn cael ei annog gyda thirlunio yn galluogi gwelededd clir ar hyd llwybrau gyda choed gyda choesau clir i 2 fetr - felly fydd dim yn rhwystro golygfeydd.

Glendid

Clendid yw'r prif arwydd bod y cynllun tirwedd yn cael ei reoli'n effeithiol. Bydd yn bwysig cynnal glendid y dirwedd trwy gasglu a chael gwared ar ddail, malurion a sbwriel yn rheolaidd. Darperir biniau ar gyfer y cyhoedd. Mae'r dyluniad wedi'i ddatblygu i ganiatáu mynediad i gerbydau glanhau ar hyd y gwahanol lefelau.





Llundain  
Leeds  
Birmingham  
Manceinion

Caerdydd  
Glasgow  
Aberystwyth

029 2034 2688

[marianna.fotopoulou@db3group.com](mailto:marianna.fotopoulou@db3group.com)

[www.db3group.com](http://www.db3group.com)